Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cofnodion Cymeradwy
# Cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr
# a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023, drwy gyfrwng Timau

**Yn bresennol:**

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) Cadeirydd | Rheolwr Grŵp – Cymorth Busnes |
| Ms E Giles (EG) Ysgrifennydd Uwch | Swyddog Gwasanaethau Disgyblion |
| Ms R Garner (RG) | ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) Arweinydd y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Namau Meddygol ac Echddygol Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr Tîm Gofal Plant |

Cynrychiolwyr Ysgolion (cymunedol a gwirfoddol a reolir)

| | |
|---|---|
| Mr R Pawar (RP) | Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryntirion |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |

Cynrychiolwyr Ysgolion (gwirfoddol a gynorthwyir)

| | |
|---|---|
| Mr J Tarran (JT) – Is-gadeirydd | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru |
| Mr A Howells (AH) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath |

Cynrychiolwyr yr Esgobaeth Gatholig

| | |
|---|---|
| Ms A Robertson (AR) | Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd |

Cynrychiolwyr Rhieni-lywodraethwyr

| | |
|---|---|
| Ms C Bloomfield (CB) | Rhiant-lywodraethwr, Coleg Cymunedol y Dderwen |

Aelodau ychwanegol

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Swyddog Derbyn Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Mrs M Treharne (MT) | Cyd-drefnydd Ymgysylltu ag Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |

## 1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.

Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd JPB, SS, RO, DD ac RM.

## 2. Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd ar gyfer blwyddyn Ysgol 2023-2024

Cynigiwyd RD, JT ac EG yn Gadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd. Cafodd y cynnig ei gymeradwyo gan bawb oedd yn bresennol. Derbyniodd RD, JT ac EG y swyddi am flwyddyn ysgol 2023-2024.

## 3. Aelodaeth o'r fforwm am flwyddyn ysgol 2023-2024

Cyfeiriodd EG at Atodiad B, sef y ddogfen oedd yn rhoi manylion aelodaeth arfaethedig y fforwm am 2023-2024.

Tynnodd EG sylw at yr aelodau newydd oedd wedi ymuno â'r fforwm ar ôl y cyfarfod diwethaf ym mis Ionawr 2023. Cofnodwyd yr aelodau newydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Miss Emma Giles | Uwch Swyddog Gwasanaethau Disgyblion |
| Mr Ravi Pawar | Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryntirion |
| Mr Ashley Howells | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath |
| Ms Rebecca Owens | Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Heronsbridge |
| Ms Claire Bloomfield | Rhiant-lywodraethwr, Coleg Cymunedol y Dderwen |
| Mr Shaun Sweeney | Llywodraethwr Cymunedol, Ysgol Gynradd Tremaen |

Cofnodwyd bod Mrs Catrin Coulthard, Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd wedi ymddiswyddo fel aelod o'r fforwm ac mai Ms Delyth Davies, Pennaeth Dros Dro Ysgol y Ferch o'r Sgêr, fyddai'r cynrychiolydd newydd.

EG i ddiweddaru Aelodaeth Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr yn Atodiad A i adlewyrchu'r newid hwn.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 a materion oedd yn codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

## 5. Rhaglen Waith ddrafft 2023-2024

Cyflwynodd EG y rhaglen waith ddrafft, oedd yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r fforwm, fel y'u heglurwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion, a chynigiodd y ffordd y gallai'r fforwm gyflawni'r cyfrifoldebau hynny ym mlwyddyn ysgol 2023-2024. Tynnwyd sylw at y ffaith fod dau gyfarfod wedi cael eu cynnig ar gyfer y flwyddyn er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau statudol y fforwm.

Gofynnodd JT am i'r ail gyfarfod gael ei drefnu ar gyfer diwedd Tymor y Gwanwyn, er mwyn ei gwneud yn bosibl  penderfynu'r polisïau newydd cyn 15 Ebrill. Dywedodd EG y byddai'n cadarnhau dyddiad y cyfarfod newydd drwy e-bost.

Dywedodd EG fod rhai agweddau ar y rhaglen waith yn dibynnu ar wybodaeth fyddai'n cael ei darparu gan yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyid.

Dywedodd EG mai'r amserlen ar gyfer darparu adroddiad blynyddol y fforwm am 2022-2023 i Lywodraeth Cymru oedd 30 Tachwedd

## 6. Polisi Derbyniadau Ysgol Drafft 2025-2026 – yr awdurdod lleol

Amlinellodd EG mai'r ddogfen sylfaenol oedd polisi 2024-2025, gyda'r holl newidiadau a gynigid ar gyfer 2025-2026 yn cael eu holrhain. Gwahoddwyd cwestiynau a thrafodaeth ynghylch unrhyw newidiadau a gynigid ond nodwyd mai bychan oedd llawer o'r newidiadau, megis dyddiadau. Roedd y newidiadau y tynnwyd sylw atynt fel a ganlyn:

- Yn Adran 1.4 mae newid bychan i'r geiriad ynghylch ein hysgolion arbennig, i roi enwau'r ysgolion.
- Yn Adran 8 mae newid bychan i gyfeirio yn awr at Banel Mynediad Teg Prif Ffrwd (MFAP) yn yr adran Mynediad Teg.
- Yn Adran 8.10 ceir newid bychan iawn ynghylch Symudiadau a Reolir, gyda'r ychwanegiad y gofynnir i rieni/gofalwyr gwblhau ffurflen gais.
- Mae'r holl ddyddiadau wedi cael eu newid i adlewyrchu 2025-2026.

Cadarnhaodd EG nad oedd newidiadau yn y Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig (PAN) am 2025-2026.

Tynnodd JT sylw at y ffaith y dylid newid y geiriad yn Adran 1.2 i ddileu'r cyfeiriad at Rufeinig, ac felly, er enghraifft, dylai fod yn Ysgol Gatholig Sant Robert.

Cododd RG bryder ynglŷn ag Adran 8 gyda golwg ar fod yn eglur wrth enwi ysgolion mewn Cynllun Datblygu Unigol (IDP), yn enwedig ar gyfer y ceisiadau hynny a gâi eu cyflwyno i Awdurdodau Lleol eraill. Cytunodd RD ac RG i ychwanegu 'yn dilyn ymgynghori gyda'r awdurdod lleol'.

Cadarnhaodd CC y byddent yn mynd drwy'r broses ymgynghori gyda'r Awdurdod Lleol oedd yn trosglwyddo.

Hysbysodd RP y fforwm am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Rheolwr Rhaglen yr Ysgolion, ynglŷn â'r gwaith adeiladu newydd yn Ysgol Gyfun Bryntirion a'r effaith ar y PAN.

Esboniodd RD bod gwaith craffu i gael ei gynnal ar brosiect oherwydd y ffordd y mae proses yr hysbysiad cyhoeddus yn gweithio, sy'n disodli'r trefniadau sydd gan yr awdurdod lleol o ran y PAN. Mae'r hysbysiad cyhoeddus yn newid y cynllun yn ddiofyn, ac felly ni châi ei grybwyll yn y polisi. Gellid gwneud newidiadau i'r PAN ar sail yr hysbysiad cyhoeddus yn ddiweddarach. Mae'r cod yn caniatáu i ni newid y PAN yn unol â threfniadau moderneiddio ysgolion perthnasol fel bod hyblygrwydd o fewn y ddeddfwriaeth i newid y PAN yn ddynamig.

Cytunodd y fforwm ar y polisi drafft.

## 7. Polisïau Drafft Derbyn i Ysgolion 2025-2026 – Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

Cyfeiriodd RD at y polisïau drafft oedd wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau a chyfrifoldeb y fforwm i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cydymffurfio â'r Cod Derbyn i Ysgolion.

Tynnodd EG sylw at y pwyntiau canlynol ar bolisïau yr ysgolion gwirfoddol:

- Polisi ysgol yr Archddiacon John Lewis – mae angen diweddaru'r dyddiadau ar gyfer yr amserlen. Cadarnhaodd JT ei fod wedi bod yn disgwyl am bolisi'r Awdurdod Lleol er mwyn diweddaru'r dyddiadau ac y gellid cwblhau'r rhain yn awr. Dywedwyd hefyd y byddai angen newid y dyddiad geni ar gyfer y Feithrinfa Lawn Amser ac y dylai ddarllen Medi 2021.
- Mae polisi ysgol St Robert yn cyfeirio at feini prawf gordanysgrifio ond nid yw'n manylu beth yw'r rhain. Cadarnhaodd AR y byddai hi'n dilyn y mater hwn i fyny gyda'r ysgol.
- Mae'r polisïau yn canolbwyntio ar rowndiau derbyn, gydag ond ychydig o fanylion ynghylch derbyniadau o fewn y flwyddyn. Bydd AR yn cyfleu'r wybodaeth hon yn ôl i'r ysgolion.

Dywedodd JT eto ei fod ef wedi ailfodelu'r polisi ar gyfer ei ysgol ef ar bolisi'r awdurdod lleol oherwydd ei fod mor gynhwysfawr, oedd yn golygu ei fod yn eglur ac wedi cael ei brofi, oedd yn ei gwneud yn haws cwrdd ag unrhyw her, yn enwedig pe bai apêl yn cael ei gwneud. Dywedodd JT ei fod wedi rhannu ei farn gyda chydweithwyr yn yr ysgolion gwirfoddol.

Cadarnhaodd RD eto fod cymorth ar gael gan yr awdurdod lleol ynghylch unrhyw faterion yn ymwneud â derbyniadau ac y byddent yn rhoi adborth pwrpasol pe bai ar ysgolion angen cyngor a chymorth ychwanegol.

Cadarnhaodd AR fod y polisïau ar gyfer yr ysgolion gwirfoddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn debyg i rai yr ysgolion gwirfoddol ar draws yr esgobaeth. Gyda golwg ar apeliadau, hysbysodd AR y fforwm ei bod hi'n derbyn adroddiad gan aelodau y panel apêl annibynnol, sy'n tynnu sylw at unrhyw faterion sydd wedi cael eu hamlygu o ran eu polisïau, sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda'r ysgolion.

## 8. Diweddariad Grŵp Derbyniadau Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

Dywedodd EG wrth yr aelodau am yr eitemau canlynol a drafodwyd yng nghyfarfod Grŵp Derbyniadau CCAC ar 06 Hydref 2023:

**Dinasyddion Wcráin**

- Mae LlC wedi peidio â chasglu data ar gyfer derbyniadau o Wcráin dros dro gan fod y niferoedd wedi sefydlogi. Mae'r Awdurdod Lleol wedi sylwi ar ostyngiad yn nifer y ceisiadau gan y rheiny sy'n cyrraedd y wlad ac wedi gweld mwy o gynnydd yn y disgyblion sy'n trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill.
- Mae'r tîm canolog sy'n ymateb i ddinasyddion o Wcráin/tramor wedi cadarnhau fod yna nifer o ffrydiau cyllido ar waith, yn dibynnu ar y garfan sy'n cyrraedd yr ardal. Maent yn gweithio ar fatrics tariffau ariannol fydd yn egluro, gobeithio, pa lwybrau cyllido sydd ar gael ac mae diweddariad i ddilyn.

- Mae arweiniad diweddar ar gael gan LlC ar gyllid ar gyfer Cartrefi i Wcráin (cyllido|LLYW.CYMRU). Mae'r tîm wedi cadarnhau bod yna dariff addysg ar hyn o bryd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.
- Gyda golwg ar hysbysu ynghylch rhai sy'n cyrraedd, yn anffodus mae'r ffordd y maent yn cyrraedd yn golygu bod y Swyddfa Gartref yn gorfod dod o hyd i lety iddynt yn gyflym. Maent yn ceisio cynllunio'n well ar gyfer hyn ond mae'r niferoedd sydd wedi bod yn cyrraedd wedi gwneud hyn yn heriol.

### System Dribiwnlys Newydd i Gymru

- Daeth yr ymgynghoriad ar gyfer y papur gwyn 'System Dribiwnlys Newydd i Gymru' i ben ar 2 Hydref.
- Ar ôl ymgynghori, dylai apeliadau derbyn aros gyda'r awdurdodau lleol a pheidio â chael eu cynnwys yn y Tribiwnlys Addysg i Gymru.
- Caiff y system newydd ei rhoi ar waith dros gyfnod o amser, yn hytrach na dull sydyn.
- Yr adborth i LlC oedd bod y papur gwyn yn llawer rhy gymhleth i allu ymateb yn briodol. Roedd pobl yn cael trafferth gyda'r ddogfen ac yn teimlo na allent wneud sylwadau ar yr hyn sydd yn newid sylweddol. Esboniodd LlC fod hyn oherwydd y maes y mae'r papur gwyn yn delio ag ef a'r ddeddfwriaeth o'i gwmpas

### Symudiadau a Reolir

- Adroddai Caerdydd am gynnydd enfawr mewn symudiadau a reolir a bod y problemau o safbwynt derbyniadau yn sylweddol.
- Dywedai mwyafrif yr Awdurdodau Lleol nad oeddent yn cytuno i symudiad a reolir os nad oedd lle ar gael yn yr ysgol dan ystyriaeth. Adroddai'r rhan fwyaf bod eu panel 'Anodd eu Gosod' neu grŵp cyfatebol yn gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau.
- Dywedodd un Awdurdod Lleol, oherwydd y cynnydd mawr mewn symudiadau a reolir sy'n cael eu hystyried ganddo ei fod yn treialu rota ar gyfer symudiadau a reolir i osgoi gorlwytho unrhyw un ysgol, gyda'i banel yn gwneud y penderfyniadau.

### Gwahardd Disgyblion

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod cynnydd yn nifer y rhieni sy'n gofyn am i ddisgybl gael ei drosglwyddo cyn y gellir cwblhau proses gwaharddiad ac felly yn osgoi cael y gwaharddiad hwnnw yn erbyn eu plentyn. Mae'r disgybl wedyn yn cychwyn yn yr ysgol y mae wedi trosglwyddo iddi am gyfnod byr cyn gwneud cais i gael ei drosglwyddo yn ôl i'r ysgol wreiddiol. Mae angen i'r ceisiadau hyn wedyn gael eu hystyried gan y paneli Mynediad Teg a phrotocolau 'anodd eu gosod'.

Cadarnhaodd MT yr ymdrinnir â gwaharddiadau parhaol ym Mhen-y-bont ar Ogwr drwy'r llwybrau cywir, gan fynd drwy'r panel Mynediad Teg i'w trafod a chysylltu gyda'r ysgolion. Rhannodd MT ein bod yn derbyn ychydig o geisiadau o'r tu allan i'r awdurdod i ddisgyblion gael dod yn ôl i Ben-y-bont ar Ogwr ar ôl cael eu gwahardd yn barhaol a bod y broblem yn codi o ddiffyg gwybodaeth gefndir a'n bod yn ddibynnol iawn ar awdurdodau lleol eraill yn rhannu honno gyda ni.

Gofynnodd JT am gadarnhad o faint o amser yr oedd cais am drosglwyddiad yn ei gymryd. Dywedodd EG mai 15 o ddyddiau ysgol neu 28 diwrnod calendr, p'un bynnag fyddai'r cyntaf.

Cwestiynodd JT amseriad y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion (PDC) mewn perthynas â chais posibl am drosglwyddiad.

Esboniodd MT mai proses gwaharddiad parhaol yw bod rhaid i broses Disgyblu Disgybl ddigwydd o fewn 15 niwrnod i'r gwaharddiad parhaol. Byddwn bob amser yn ceisio gofyn i ysgolion ei adael gyhyd ag y bo modd i gael y PDC fel y gallwn fynd ag ef at ein panel mynediad at addysg am drafodaeth bellach, rhag ofn y bydd ar y plentyn angen darpariaeth arbenigol ac wedyn gallwn ei symud ymlaen cyn y PDC. Nid felly y mae hi bob tro ac yn achos rhai o'r plant hyn sy'n cael eu gwahardd yn barhaol bydd yn rhaid inni eu symud i ysgol brif ffrwd arall, ond 15 niwrnod ydyw fel rheol.

Gofynnodd RD a fyddai ysgol yn dileu gwaharddiad parhaol disgybl oedd yn symud i Awdurdod Lleol arall. Dywedodd MT eu bod yn cynghori Penaethiaid yn gryf i gwblhau'r broses. O safbwynt cyfreithiol, os na fyddant yn gwneud hynny, gallai'r disgybl ail ymgeisio i'r ysgol honno. Mae achlysuron wedi bod pan ydym wedi gosod disgyblion mewn darpariaeth arbennig ac wedyn mae'r penaethiaid wedi cytuno i ddiddymu'r gwaharddiad parhaol.

Cadarnhaodd RP y byddent yn dilyn y broses o Ddisgyblu Disgybl drwodd i'w therfyn.

### Y Prosbectws Blynyddol

Yn CCAC gofynnwyd y cwestiwn a yw awdurdodau lleol yn cyhoeddi polisïau derbyn i ysgolion gwirfoddol yn eu prosbectws. Cymysg oedd yr ymateb, lle bydd rhai yn cyhoeddi dolen gyswllt i'r polisïau hynny yn hytrach na'r ddogfen gyfan, ond bod gan eraill bolisi cytunedig ar draws yr ysgolion gwirfoddol y maent yn ei gyhoeddi ac wedyn yn cyhoeddi'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer pob un, tra bydd eraill yn cyhoeddi popeth.

Gofynnodd RD a oedd cyngor i'w gael ynghylch y dull mwyaf priodol. Cadarnhaodd EG mai dewis yr Awdurdod Lleol ydoedd.

### Diweddariadau Pellach gan Lywodraeth Cymru

- Mae'r adrannau llywodraethu a derbyn wedi cael eu huno.
- Mae diwygiad i'r apeliadau derbyn wedi mynd drwodd a'r cod wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu darparu cyfarfodydd apêl ar-lein. Mae'r cyfnod o orffwys i fod i ddod i ben ddiwedd y mis hwn.
- Cyd-drefnu trefniadau derbyn – mae rheoliadau newydd wedi cael eu drafftio a gobeithio ymgynghori yn ystod tymor yr hydref gyda golwg ar wneud y newidiadau erbyn diwedd y flwyddyn ysgol hon ac wedyn caiff y cod ei ddiweddaru.

## 9. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd yr un eitem.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ni chytunwyd ar ddyddiad. Cytunodd EG i gyfathrebu â'r aelodau ynghylch dyddiad y cyfarfod nesaf.

Diolchodd RD i bawb am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau.